## Soloist – Traws Cambria

Mae hi'n teithio ar fws Traws Cambria
ar fore glawog llwyd.
Mae ganddi gur yn ei phen
a phoen yn ei bol
ar ôl cychwyn heb damaid o fwyd.
Ac mae'r lôn yn sgleinio'n ddu a gwlyb,
olwynion yn troi islaw –
ffarwél i'r gwaith mewn siop sgidia, bois,
mae 'na fan gwyn man draw.

*Cytgan:*

Breuddwydio am yfory ac anghofio am ddoe,
breuddwydio am yfory – a ffoi.

Dacw Sunland, Funland, "Sunny Rhyl",
Llandudno heb ymwelwyr haf,
mwynder Maldwyn yn ymestyn o'i blaen
yn welw a llwyd fel claf ...
'Toes ganddi hi ddim breuddwyd,
'toes ganddi ddim gobeithion mawr,
'toes ganddi ddim byd
ond sêt reit glyd
ar fws yn teithio trwy'r glaw.

*Cytgan*

Listen to Steve Eaves singing *Traws Cambria* on YouTube

# TRAWS CAMBRIA






Page copied with permission from Y Lolfa
100 o Ganeuon Pop

## Group – Wrth fynd efo Deio i Dywyn

| | |
|---|---|
| 1.<br>Mi dderbyniais bwt o lythyr,<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Oddi wrth Mistar Jones o'r Brithdir,<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Ac yn hwnnw ‘roedd o'n gofyn.<br>Ffa-la-la-la-la, la-la-la-la<br>Awn i hefo Deio i Dywyn.<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br><br>2.<br>Bûm yr hir yn sad gysidro<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Prun oedd orau mynd ai peidio,<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Ond wedi'r oll bu i mi gychwyn<br>Ffa-la-la-la-la, la-la-la-la<br>Hefo Deio i ffwrdd i Dywyn.<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br><br>3.<br>Fe gychwynnwyd ar nos Wener<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Dod i Fawddwy erbyn swper;<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Fe gaed yno uwd a menyn<br>Ffa-la-la-la-la, la-la-la-la<br>Wrth fynd hefo Deio i Dywyn.<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la | 4.<br>Dod ymlaen ac heibio i'r Dinas<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Bara a chaws a gaed yng Ngwanas,<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Trwy Dalyllyn yr aem yn llinyn<br>Ffa-la-la-la-la, la-la-la-la<br>Wrth fynd hefo Deio i Dywyn.<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br><br>5.<br>Dod drwy Abergynolwyn<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Wedyn heibio Craig y Deryn:<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Pan gyrhaedd'som Ynys Maengwyn.<br>Ffa-la-la-la-la, la-la-la-la<br>Gwaeddai Deio, "Dacw Dywyn!"<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br><br>6.<br>Os bydda'i byw un flwyddyn eto<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Mynna'n helaeth iawn gynilo;<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la<br>Mi gaf bleser anghyffredin<br>Ffa-la-la-la-la, la-la-la-la<br>Gwaeddai Deio, "Dacw Dywyn!"<br>Ffa-la-la-la la-la-la-la la-la-la |

Words in Welsh and English plus chords and melody at [Wrth Fynd Efo Deio i Dywyn]